O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 388 (Cy.56)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnelau Penmaen-bach, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym* | *27 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A55 (Caer–Bangor) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Chwefror 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnelau Penmaen-bach, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnod o 14 o ddiwrnodau ar y mwyaf o 00:01 o'r gloch ar bob un o'r dyddiadau a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd" ("*the length(s) of the trunk road*") yw'r darn(au) o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 7 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt gael ei yrru, ar hyd naill ai cerbytffordd tua'r dwyrain, neu gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.**—(1) Tra bydd cerbydau yn cael eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 8, ddim yn cael eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn y fath fodd ag i beri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;

(b) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy'r naill neu'r llall o'r bylchau yn llain ganol y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bydd cerbydau'n cael eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 8, ddim yn cael eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn y fath fodd ag i beri neu ganiatáu iddo:-

(a) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;

(b) goddiweddyd unrhyw gerbyd modur ar y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

(c) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy'r naill neu'r llall o'r bylchau yn llain ganol y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**5.**— (1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r adegau hynny y bydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol ag erthygl 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n lletach na 3.2 o fetrau, na pheri na

chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath fynd, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**9.** Mae darpariaethau Gorchymyn y Gefnffordd (A55) (Penmaen-bach–Dwygyfylchi, Gwynedd) (Traffig Unffordd) 1990**(3)** wedi eu hatal drwy hyn i'r graddau y maent yn ymwneud â lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 yn ystod yr adegau y bydd y gerbytffordd tua'r dwyrain ar gau yn unol ag erthygl 3 ac â lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 yn ystod yr adegau y bydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol â'r erthygl honno.

**10.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Penmaen-bach, Gwynedd) (Cau Croesfannau'r Llain Ganol) 1994(**4)** wedi eu hatal drwy hyn yn ystod yr adegau y bydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**11.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaen-mawr – Morfa Conwy, Conwy) (Codi Cyfyngiad) 2004**(5)** wedi eu hatal drwy hyn mewn cysylltiad â'r darn o gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1, 2 a 3 o Atodlen 4 yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**12**. Mae darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Glanconwy i Forfa Conwy) 1990**(6)** wedi eu hatal drwy hyn mewn cysylltiad â'r darn o gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1 a 3 o Atodlen 4 yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**13.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaen-mawr, Gwynedd) (Codi Cyfyngiad) 1989**(7)** wedi eu hatal drwy hyn mewn cysylltiad â'r darn o gefnffordd a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 4 yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**14.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy–Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2010(**8**) wedi eu hatal drwy hyn mewn cysylltiad â'r darn o gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1 a 3 o Atodlen 4 yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**15.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 14 Chwefror 2011.

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(3)** O.S. 1990/328.

**(4)** O.S. 1994/3088.

**(5)** O.S. 2004/2876.

**(6)** O.S. 1990/1586.

**(7)** O.S. 1989/1958.

**(8)** O.S. 2010/808 (Cy. 84).

## YR ATODLENNI

Darnau o Gefnffordd ym Mhenmaen-bach ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

### ATODLEN 1
### Terfynau'r gwrthlif

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol y twnnel hwnnw.

### ATODLEN 2
### Terfynau'r cyfyngiad ar beidio â goddiweddyd

Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain (y penrhyn) sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol y twnnel hwnnw.

### ATODLEN 3
### Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

1. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

2. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 210 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

### ATODLEN 4
### Gwahardd pob cerbyd yn ystod yr adegau y bydd y ffordd ar gau a therfyn cyflymder 40 mya

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o'r llain ganol wrth bwynt 50 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy hyd at ganolbwynt Cyffordd 16 Cylchfan Puffin, gan gynnwys y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 17 Morfa Conwy a'r bwlch yn y llain ganol fel a ddiffinnir ym mharagraff 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

2. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont Red Gables i'r llain ganol wrth bwynt 191 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penrhyn Penmaen-bach tua'r Dwyrain, gan gynnwys y bwlch yn y llain ganol fel a ddiffinnir ym mharagraff 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

3. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'r llain ganol wrth bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Penrhyn Penmaen-bach tua'r Dwyrain, hyd at bwynt 50 o fetrau i'r

gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy, gan gynnwys y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 Morfa Conwy.

**ATODLEN 5**
**Cyfyngiadau ar led cerbydau**

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan Puffin hyd at ben pellaf y man lle y mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymuno â phrif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

2. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ben pellaf y man lle y mae'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymrannu oddi wrth brif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan Puffin, gan gynnwys y slipffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

**ATODLEN 6**
**Estyn Cyfyngiad Cyflymder 30mya y Penrhyn**

Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin a'r bwlch yn y llain ganol sy'n ymestyn o bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

**ATODLEN 7**
**Y dyddiadau**

Dydd Sul, 27 Chwefror 2011
Dydd Sul, 22 Mai 2011
Dydd Sul, 4 Medi 2011
Dydd Sul, 20 Tachwedd 2011